# ACHUB EIN HUNAIN AC ERAILL YN NHIRWEDD CENEDLAETHOL LLŶN

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn ystyried yr hyn y maent eisoes yn ei wybod am fadau achub yr RNLI a'r rhai yn eu hardal leol. Maen nhw'n chwilio am wybodaeth am achubiadau diweddar ac yn ysgrifennu Trydar/X fel gohebydd newyddion. Yna, maent yn ymchwilio i lansio badau achub yn ddiweddar, ledled Cymru. Cyflwynir y dysgwyr i is-bennawd yr RNLI ar gyfer argyfyngau dŵr. Maen nhw'n ystyried y cysyniad o arnofio a'r ffordd orau i arnofio, cyn gwylio fideo yr RNLI: 'Arnofio i fyw'. Mae dysgwyr yn cyfarwyddo ac yn ffilmio eu fideo byr eu hunain ynghylch sut i arnofio i fyw, gan ddefnyddio modelau mewn pwll neu nant. Ar ôl ystyried y cysyniad o arnofio yn fwy gwyddonol, mae dysgwyr yn archwilio'r ffordd orau o wneud gwrthrych sy'n arnofio, o glai. Mae archwilio dau fad achub lleol gwahanol yr RNLI yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr feddwl o dan ba amgylchiadau y gellid defnyddio pob bad achub. Yna, mae dysgwyr yn dylunio ac yn adeiladu eu bad achub eu hunain, gan wneud defnydd o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu, ac yn ystyried y meini prawf llwyddiant ar gyfer bad achub llwyddiannus. Yn olaf, mae'r dysgwyr yn ystyried llongddrylliad y Cyprion ac yn ysgrifennu dyddiadur neu flog fel teithiwr cudd ar long yn ystod Oes Fictoria.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o recordio a golygu fideo (e.e. ffôn clyfar, llechen, camera), doliau model.
Clai modelu, powlenni o ddŵr, darnau arian 10c neu wasieri.
Detholiad o eitemau wedi'u hailgylchu (e.e. poteli plastig, llinyn, cardbord, bagiau plastig, darnau o bren) modur trydan, batrïau a gwifrau, rhai darnau arian 10c neu wasieri neu fasau trymach.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Er mwyn cyrchu'r raddfa ar Google maps, cliciwch ar 'View larger map'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH YDYM NI'N EI WYBOD AM FADAU ACHUB YR RNLI?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddeall ble mae badau achub lleol yr RNLI a'u cyrchoedd achub diweddar.

## Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am yr RNLI. Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pryd ydych chi wedi gweld bad achub yr RNLI? Ble oedd o?
- Yn eich barn chi, ble mae badau achub yr RNLI wedi'u lleoli yn Nhirwedd Cenedlaethol Llŷn?
- Pa orsafoedd bad achub RNLI ydych chi wedi'u gweld yn Nhirwedd Cenedlaethol Llŷn?
- Ym mhle ydych chi wedi gweld achubwyr bywyd ar draethau? Pa adeg o'r flwyddyn oedd hi? Pam fod angen mwy o achubwyr bywyd ar yr adeg hon o'r flwyddyn?

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r map o orsafoedd bad achub yr RNLI yng Nghymru a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa orsafoedd bad achub oeddech chi'n gwybod amdanyn nhw?
- Pa orsafoedd bad achub ydych chi wedi ymweld â nhw?
- Pa un yw'r orsaf bad achub agosaf i'ch ysgol? Sut wnaethoch chi weithio hyn allan?

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un o'r gorsafoedd bad achub sydd yn Llŷn - Porthdinllaen, Pwllheli, Cricieth neu Abersoch. Gwahoddwch nhw i chwilio ar y rhyngrwyd er mwyn darganfod...

**Cwestiynau ffocws**

- Pryd gafodd y bad achub ei lansio ddiwethaf? Pam y cafodd ei lansio?
- Beth oedd canlyniad y lansiad?

Gofynnwch iddynt ystyried sut i wneud eu hymchwil yn fwy effeithiol trwy wneud y pethau hyn:

*Cyn ymchwilio, meddyliwch...*

- Pa dermau chwilio allech chi eu defnyddio? Pa rai yw'r'gorau? Pam?
- Pa fath o safleoedd fydd orau i'w'defnyddio? Pam?

*Wrth asesu gwybodaeth/data, meddyliwch...*

- A allai'r'wybodaeth/data fod yn unochrog? Pam ydych chi'n'meddwl hynny?
- Pa mor ddibynadwy yw'r'wybodaeth/data, yn eich barn chi? Sut allech chi ddarganfod pa mor ddibynadwy ydyw?

## Sgrîn 6

Ar y sgrîn hon, gofynnir i'r dysgwyr ysgrifennu Trydar/X am ganfyddiadau eu hymchwil - fel gohebydd newyddion. Atgoffwch nhw mai dim ond 280 nod sydd ganddyn nhw.

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i archwilio map byw yr RNLI sy'n dangos cychod achub yn cael eu lansio'n ddiweddar: Latest lifeboat launches around the UK and Ireland – RNLI (Saesneg yn unig) ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble'r oedd y lansiad diweddaraf agosaf?
- Pa mor bell oedd y lansiad agosaf o'ch ysgol? Sut wnaethoch chi gyfrifo'r pellter?

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr roi cynnig ar y cwis byr am fadau achub yr RNLI.

TASG 2

# PAM MAE ARNOFIO YN BWYSIG?

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn hybu eu dealltwriaeth o arnofio a sut i wneud hynny mewn argyfwng.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried is-bennawd yr RNLI am argyfwng mewn dŵr. Yna, dylent ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl fod pob un o'r camau hyn yn bwysig?
- Dychmygwch eich bod chi'n syrthio i ddŵr oer, beth sy'n digwydd? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth ydych chi'n ei wybod am gerrynt deufor-gyfarfod? Beth allai ddigwydd os byddwch chi'n ceisio nofio trwy gerrynt deufor-gyfarfod?
- Beth ydych chi'n ei wybod am ffonio 112 mewn argyfwng?

Gwahoddwch y dysgwyr i ymchwilio ar y rhyngrwyd os ydyn nhw'n ansicr o unrhyw rai o'u hatebion.

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau am arnofio, gyda'u partner.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut ydych chi'n arnofio mewn dŵr? Beth ydych chi'n ei wneud? Rhestrwch beth sydd angen i chi ei wneud.

Yna, dylent restru eu syniadau ar y sgrîn.

## Sgrîn 5

Ar y sgrîn hon, gwelir cyngor yr RNLI ar sut i arnofio:

- Ymladd yn erbyn eich greddf i nofio yn galed.
- Pwyso'n ôl yn y dŵr.
- Gwthio eich stumog tuag at i fyny, gan ymestyn eich breichiau a'ch coesau.
- Symud eich dwylo a'ch traed yn araf, er mwyn eich helpu i arnofio nes eich bod wedi rheoli eich anadlu.

Gofynnwch i'r dysgwyr gymharu eu rhestr eu hunain â rhestr yr RNLI.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i wylio fideo'r RNLI [Float to live] (tua 1 munud). Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ei bod hi'n bwysig peidio â nofio'n galed pan fyddwch chi'n cwympo i mewn i ddŵr oer?
- Sut mae'r bobl yn y fideo yn arnofio?
- Ym mhle ydych chi'n meddwl y cafodd y fideo ei ffilmio? Pam?

### Sgrîn 7

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i wneud eu fideo eu hunain (un munud o hyd) ynghylch sut i arnofio i fyw, gan ddefnyddio modelau mewn pwll, nant neu ddŵr môr bas. Gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol yn eu grŵp.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r negeseuon allweddol sydd eu hangen yn y fideo?
- Sut gallwch chi ddangos y negeseuon allweddol gan ddefnyddio modelau?
- Sut byddwch chi'n cyfleu'r negeseuon allweddol i'r gwyliwr? A fyddwch chi'n defnyddio is-deitlau, troslais, cerddoriaeth neu ddull arall?
- Pwy yn eich grŵp fydd yn gwneud beth? Pam?
- Sut byddwch chi'n sicrhau mai dim ond munud o hyd yw'ch fideo?

### Sgrîn 8

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i ffilmio eu fideo.

### Sgrîn 9

Gofynnwch i'r dysgwyr olygu eu fideo yn barod i'w gyflwyno i'r dosbarth, a gwirio eu bod wedi cynnwys eu holl negeseuon allweddol a'u bod yn glir i'r gwyliwr.

### Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr gyflwyno eu fideo a gofyn am adborth gan gymheiriaid, ar ffurf:

Dau beth yn y fideo roedden nhw'n meddwl oedd yn dda, gan ddweud pam.

Un peth a allai fod yn well yn y fideo, gan ddweud pam.

TASG 3

## DYLUNIO GWRTHRYCHAU ARNOFIOL

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn archwilio sut i ddylunio a gwneud gwrthrychau arnofiol.

### Sgriniau 3-4

Ar y ddwy sgrîn, ceir disgrifiad ac esboniad o arnofio, ac yna cwis byr ynghylch hyn ar sgrîn 4.

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio clai i greu gwrthrych sy'n arnofio. Defnyddir clai modelu i greu'r gwrthrych ac fel ellir ei brofi mewn powlen o ddŵr.

Gofynnwch iddynt sicrhau bod y clai yn sych cyn ei ailbrofi neu ei siapio yn dilyn gwneud dyluniad newydd.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr ddylunio gwrthrych allan o glai sy'n gallu cario'r llwyth mwyaf o ddarnau arian 10c a pharhau i wneud gwelliannau bob tro mae eu gwrthrych yn suddo.

Gwahoddwch nhw i dynnu llun diagram o'u 'gwrthrych buddugol' a labelu ei nodweddion dylunio arbennig a'i helpodd i arnofio, gan gario'r nifer mwyaf o ddarnau arian 10c (neu wasieri).

## Sgrîn 7

Er mwyn myfyrio ar y dasg, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ar beth sylwoch chi wrth adeiladu eich gwrthrychau arnofiol?
- Pam wnaethoch chi'r newidiadau a wnaed gennych?
- Pa ddyluniadau oedd i'w gweld yn gweithio orau? Beth ynghylch y dyluniadau hyn a'u gwnaeth yn llwyddiannus?
- Pa ddyluniadau oedd ddim yn gweithio'n dda i bob golwg? Beth ynghylch y dyluniadau hyn a'u gwnaeth yn llai llwyddiannus neu'n aflwyddiannus?
- Sut y gwnaeth eich dyluniad newid trwy gydol y gweithgaredd?

## Sgriniau 8-10

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen am fadau achub yr RNLI, edrych yn ofalus ar y delweddau a thrafod y cwestiynau canlynol tra'n edrych ar y naill ddelwedd a'r llall.

**Cwestiynau ffocws**

- Faint o bobl fydd y bad achub yn eu dal, yn eich barn chi?
- Beth fyddai cyfanswm màs y bobl hyn, yn eich barn chi? Sut wnaethoch chi amcangyfrif hyn?
- Ar gyfer pa fath o argyfwng y gallai'r bad achub hwn gael ei ddefnyddio, yn eich barn chi? Rhestrwch gymaint ag y gallwch.
- Ym mha fathau o dywydd ac amodau môr y gellid defnyddio'r bad achub hwn, yn eich barn chi? Pam?

## Sgrîn 11

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i ddylunio, adeiladu a phrofi eu bad achub eu hunain. Yn eu grŵp, mae angen iddynt feddwl am y meini prawf sy'n gwneud bad achub yn llwyddiannus a rhestru cymaint ag y gallant. Yna, dylent flaenoriaethu eu meini prawf llwyddiant a theipio'r pum maen prawf sydd ar ben eu rhestr, yn y blwch a ddarperir.

## Sgrîn 12

Rhowch ddetholiad o eitemau wedi'u hailgylchu i bob grŵp: modur trydan, batrïau a gwifrau, a rhai darnau arian 10c neu fasau trymach. Gwahoddwch y dysgwyr i ddylunio bad achub, gan gofio am eu meini prawf llwyddiant. Gofynnwch iddyn nhw greu eu dyluniad a'i labelu i ddangos y nodweddion sy'n ei helpu i gyflawni eu meini prawf llwyddiant.

## Sgrîn 13

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i brofi eu bad achub y tu allan, yn yr awyr agored.

Wrth iddynt brofi eu bad achub, bydd angen iddynt addasu ei ddyluniad er mwyn ei wella. Felly, atgoffwch nhw i fynd â'r eitemau wedi'u hailgylchu, y defnyddiau adeiladu a'r offer gyda nhw.

## Sgrîn 14

Gofynnwch i'r dysgwyr fynd allan i brofi eu bad achub.

## Sgrîn 15

Gwahoddwch bob grŵp o ddysgwyr i dynnu llun dyluniad gorffenedig eu bad achub sy'n gweithio, ac i labelu'r dyluniad gan ddangos y nodweddion sy'n ei helpu i fodloni pob un o'u meini prawf llwyddiant. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- I ba raddau y mae eich dyluniad yn bodloni pob maen prawf llwyddiant?
- A oes unrhyw feini prawf llwyddiant eraill yr hoffech eu hychwanegu at eich rhestr wreiddiol? Os felly, beth ydyn nhw?

## Sgrîn 16

Gwahoddwch y dysgwyr i ddechrau ar waelod y triongl a meddwl am y ffyrdd y gwnaethon nhw weithio: yn unigol, mewn grwpiau, ar-lein, gwaith pâr. Yna, dylent ystyried y strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt: darllen, ymchwilio, tynnu lluniau, myfyrio ar waith blaenorol, dosbarthu, trafod, gwneud prototeipiau, defnyddio modelau, defnyddio enghreifftiau, gwneud rhestrau. Gallant hefyd awgrymu strategaethau eraill a ddefnyddiwyd. Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pa strategaethau a weithiodd orau. Bydd y wybodaeth olaf hon yn ddefnyddiol ar gyfer gweithgareddau tebyg yn y dyfodol.

TASG 4

# ACHUB ERAILL

Gan fod sgrîn gyntaf y dasg hon yn cynnwys diagram Pwy-Beth-Pryd-Ble-Sut-Pam?, a fyddech cystal ag osgoi dweud wrth y dysgwyr fod y dasg hon yn ymwneud â llongddrylliad y Cyprian, os gwelwch yn dda.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i barau o ddysgwyr ddefnyddio'r geiriau ar ddechrau brawddegau er mwyn gofyn cwestiynau i'w helpu i ddarganfod mwy am y ddelwedd.

## Sgrîn 4

Gwahoddwch barau o ddysgwyr i ddod at ei gilydd mewn grwpiau bach i rannu eu cwestiynau ac i drafod atebion posibl i'r cwestiynau.

## Sgrîn 5

Dywedwch wrth y dysgwyr fod adroddiad ar longddrylliad oddi ar Benrhyn Llŷn i'w weld yn [Cyprian - Coflein]. Gwahoddwch nhw i fynd i'r dudalen we a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd enw'r llong?
- Pwy oedd capten y llong?
- O ble roedd y llong yn teithio?
- Pam wnaeth y llong suddo?
- Ble ar y map mae'r llongddrylliad? I ba bentrefi/trefi mae'n agos?

## Sgrîn 6

Rhoddir dimensiynau'r Cyprian ar y sgrîn hon. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Mae faint o gargo y gall llong ei gario yn cael ei gyfrifo ar sail cyfaint y llong. Gan gymryd siâp 3D y llong fel ciwboid, beth yw ei chyfaint?
- Pa unedau ddylech chi eu defnyddio ar gyfer y cyfaint hwn?
- Gallwn drosi troedfeddi yn unedau metrig. 1 troedfedd = tua 0.3m. Troswch yr unedau imperial yn unedau metrig. Beth yw cyfaint y llong mewn $m^3$?

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen y testun am longddrylliad y Cyprian a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw 'corwynt', yn eich meddwl chi? Pam?
- Beth oedd 'stemar', yn eich meddwl chi? Pam?
- Pa mor agos oeddech chi at nodi'r llongddrylliad ar fap?
- Ble mae Genoa? Pam ydych chi'n meddwl hyn?

## Sgrîn 8

Ar y sgrîn hon, rhoddir manylion ynghylch sut yr achubodd y capten fywyd bachgen ifanc a oedd yn deithiwr cudd.

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr fod bywyd morwr ar longau yn Oes Fictoria yn galed. Llong gargo oedd y Cyprian ac ni fyddai llawer o deithwyr arni, os o gwbl. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut ydych chi'n meddwl y goroesodd y teithiwr cudd ifanc?
- Ble gallai fod wedi cuddio ar y llong?
- Sut brofiad fyddai hyn iddo? Pam?

## Sgrîn 10

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i ymchwilio i fywyd fel morwr ar longau yn ystod Oes Fictoria. Atgoffwch nhw y dylen nhw ystyried y canlynol wrth wneud eu hymchwil:

*Cyn ymchwilio...*

- Pa dermau chwilio allech chi eu defnyddio? Pa rai yw'r gorau? Pam?
- Pa fath o safleoedd fydd orau i edrych arnynt, pam?

*Wrth asesu gwybodaeth/data...*

- Sut ydych chi'n gwybod bod y wybodaeth/data yn ddibynadwy?
- A allai'r wybodaeth/data fod yn unochrog? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth/data, yn eich barn chi? Sut allech chi ddarganfod hyn?

Gofynnwch i'r dysgwyr gofnodi eu cynllun a'u canfyddiadau ar y grid CwAMFf ar y sgrîn nesaf.

## Sgrîn 11

Grid CwAMFf ar gyfer cynllunio a chofnodi'r ymchwil.

## Sgrîn 12

Gwahoddwch y dysgwyr i ddychmygu eu bod nhw'n deithiwr cudd ar long yn ystod Oes Fictoria ac i ysgrifennu dyddiadur neu wneud flog am eu bywyd ar fwrdd y llong.

Atgoffwch nhw i gynnwys...

- Pam wnaethoch chi guddio ar y llong?
- Sut oedd eich bywyd cyn i chi fynd ar fwrdd y llong?
- Sut wnaethoch chi guddio? Ble wnaethoch chi guddio? Pa mor gyfforddus oeddech chi? Pam?
- Pwy helpodd chi ar fwrdd y llong? Sut wnaethon nhw eich helpu chi?
- A oedd unrhyw eiliadau brawychus iawn? Beth oedden nhw? Sut wnaethoch chi ymdopi?

## Sgrîn 13

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Mrs. Noble o Henley-on-Thames wedi rhoi £800 i'r RNLI ar y 19ed o Ebrill 1883, a chyfarwyddiadau ar gyfer gosod gorsaf bad achub yn Nhrefor, er cof am Capten Strachan.